# Cenn@d

IONAWR 22 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 204

## A oes heddwch?

Dyna'r cwestiwn a ofynnwyd o lwyfan Neuadd Goffa Chwilog nos Sadwrn diwethaf, fel rhan o seremoni cadeirio'r bardd yn yr eisteddfod flynyddol. 'Oes' oedd yr ateb cryf a chadarn a atseiniodd drwy'r neuadd, ac yn sgil y datganiad clir hwnnw derbyniodd y Parch. Judith Morris, ysgrifennydd Pwyllgor Llywio *Cenn@d* ac Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, gadair am ddod i'r brig am ei gwaith cyfansoddi. Estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog iddi fel golygyddion ar y fuddugoliaeth ac am gipio cadair eisteddfodol arall.

Yr union gyfnod hwnnw, dyna'r cwestiwn oedd hefyd yn cael ei holi gan drigolion yn Gaza ac Israel, gyda'r byd yn dal ei anadl ac yn gobeithio am ddatrysiad i'r argyfwng. Yn dilyn 470 diwrnod o ryfela daeth y cyhoeddiad y byddai'r cadoediad yn dod i rym o fore Sul, 19 Ionawr. Gyda thelerau cadoediad wedi'u cytuno rhwng y ddwy wlad, newyddion da yw medru dweud mai 'Oes' oedd y gri yno hefyd. Ond teg dweud bod y datganiad hwnnw'n llawer mwy nerfus a phetrusgar, gan gofio mor fregus yw'r tensiynau yno o hyd.

Ers ymosodiad erchyll Hamas ar Israel ar 7 Hydref 2023 a'r ymosodiadau gan Israel mewn ymateb i hynny, mae dros 46,900 o bobl Gaza wedi eu lladd, yn ôl y weinyddiaeth iechyd yno. Yn ôl y telerau y cytunwyd arnynt, bydd cymal cyntaf y cadoediad yn Gaza yn para am chwe wythnos. Yn gyfnewid am ryddhau 33 o wystlon Israelaidd, mae Israel wedi cytuno i ryddhau dros 1,800 o garcharorion Palesteinaidd. Os yw chwe wythnos gyntaf y cadoediad yn llwyddiannus, bydd ail gymal y cadoediad yn rhoi diwedd parhaol i'r ymladd, a'r trydydd cymal yn rhoi cynllun mewn lle i ailadeiladu Gaza. Mae cytundeb hefyd y bydd 600 o loriau sy'n cludo nwyddau dyngarol yn cael mynediad i Gaza bob dydd o hyn ymlaen. Dros yr wythnosau diwethaf, dim ond 40 lorri sydd wedi cael mynediad i gario cyflenwadau brys.

Mewn datganiad a wnaed gan MAP (Medical Aid for Palestinians) cyhoeddwyd: 'Ar ôl 15 mis o ymosodiadau milwrol gan Israel ar Gaza, mae cytundeb i atal yr ymladd wedi'i gyrraedd o'r diwedd. Bydd y cadoediad hwn yn gyfle i Balesteiniaid alaru am eu hanwyliaid a dros y dinistr y mae byddin Israel wedi'i wneud arnynt dros y 15 mis diwethaf. Ein gobaith yw y bydd y saib dros dro hwn yn datblygu i fod yn gadoediad parhaol, ac yn gam hollbwysig tuag at achub bywydau ac adfer iechyd, urddas a rhyddid i bobl Palesteina. Ac eto, wrth imi ysgrifennu hyn, mae'r cytundeb yn ymddangos yn fregus ac mae llawer o ansicrwydd, gan fod byddin Israel yn dal i gynnal ymosodiadau ar draws Gaza.'

Meddai Dr Jerry Pillay, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd: 'Rydym yn cymryd cysur yn y rhyddhad y mae'r newyddion hyn yn ei gynnig i deuluoedd y rhai fydd yn cael eu rhyddhau cyn bo hir, a'r gobaith y bydd yn gychwyn ar broses fydd yn arwain at ddiwedd ar y rhyfel trychinebus yn Gaza. Rydym yn ddiolchgar i'r holl bleidiau a'r bobl sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau'r cytundeb. Rydym yn gweddïo ac yn gobeithio y bydd y cadoediad hwn yn arwain at heddwch yn seiliedig ar gyfiawnder, atebolrwydd am droseddau a gyflawnwyd, gan gydnabod hawliau cyfartal ac urddas pawb, yn Balesteiniaid ac Israeliaid. Yn y cyfamser, apeliwn am weithredu brys i ddarparu cymorth dyngarol ar y raddfa sydd ei hangen i liniaru dioddefaint pobl Gaza ac am arweiniad clir i gynorthwyo pobl Gaza i wella a ailadeiladu eu cymunedau.'

Paratowyd datganiad hefyd gan 18 o fudiadau dyngarol ym Mhrydain mewn ymateb i'r cadoediad, yn eu plith Cymorth Cristnogol, Oxfam, Embrace the Middle East ac Amnest Rhyngwladol. Maent yn datgan: 'Rydym yn croesawu rhoi'r gorau i ymladd dros dro rhwng Hamas ac Israel yn Gaza. Tra bod y saib dros dro hwn yn gam hollbwysig, mae'n dod yn llawer rhy hwyr i'r dros 46,000 o Balesteiniaid sydd wedi'u lladd gan luoedd Israel yn Gaza. Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wneud eu rhan i sicrhau bod y seibiant hwn yn troi'n gadoediad parhaol yn fuan.

'Ers mis Hydref 2023, mae Gaza wedi dioddef ymosodiad milwrol trychinebus gan Israel sydd wedi dadleoli mwy na 1.9 miliwn o bobl – bron i 90% o'i phoblogaeth. Mae teuluoedd yn ceisio byw mewn pebyll dros dro gydag ychydig iawn o gysgod rhag elfennau'r gaeaf. Mae Comisiwn Ymchwilio'r Cenhedloedd Unedig wedi canfod bod polisïau Israel, gan gynnwys targedu personél a chyfleusterau meddygol yn fwriadol, yn gyfystyr â throseddau rhyfel a throseddau yn erbyn dynoliaeth. Galwn ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i gymryd camau ar unwaith i sicrhau atebolrwydd a chyfiawnder i Balesteiniaid. Rhaid atal trosglwyddo arfau i Israel a sicrhau bod UNRWA, corff dyngarol y Cenhedloedd Unedig, yn cael y rhyddid a'r hawl i arwain yr ymdrechion dyngarol yn Gaza.'

Meddai Lynne Green ar ran Bedyddwyr Ynghyd: 'Bydd y cadoediad rhwng Hamas ac Israel yn rhyddhad enfawr i bawb sy'n byw yn Gaza ac i'r rhai sy'n aros am weld rhyddhau gwystlon. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn adrodd bod 70% o'r rhai sydd wedi eu lladd yn Gaza yn fenywod a phlant, a hyd yn oed yn y dyddiau diwethaf mae ysgolion ac ysbytai sy'n rhoi lloches i'r rhai sydd wedi'u dadleoli wedi cael eu bomio. Mae ein heglwysi'n galaru yn fawr am golli bywydau cynifer. Mae pob person a gollwyd yn unigryw ac yr un mor werthfawr yng ngolwg Duw. Parhawn i weddïo dros y sefyllfa.'

*Aled Davies*

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cyhoeddi rhestr wylio Open Doors ac erlid Cristnogion
**Tudalen 2**

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025
**Tudalen 3**

Diwrnod gweithredu dros iechyd Gaza
**Tudalen 7**

*A oes heddwch?* *(parhad o dudalen 1)*

## Gweddi dros y cadoediad

Dduw tangnefedd,
Diolchwn am y newyddion calonogol a ddaeth i law am y cytundeb cadoediad rhwng llywodraeth Israel a Hamas. Diolchwn am bawb fu'n rhan o'r broses o geisio sicrhau heddwch, a gweddïwn y bydd y gwledydd yn glynu at y cytundeb. Eto, gwyddom mai cam cyntaf yn unig yw hwn ar y llwybr i wir heddwch a chyfiawnder, a bod taith hir o'n blaenau. Gweddïwn am dy arweiniad di drwy'r broses gymhleth hon.

Gweddïwn dros y teuluoedd a fydd yn cael eu haduno â'u hanwyliaid. Cofleidia nhw â'th gariad a'th ofal wrth iddynt gychwyn ar daith hir o iachâd a chymod.

Gweddïwn dros bawb y mae eu hanwyliaid wedi'u lladd yn y rhyfel erchyll hwn. Bydded iddynt synhwyro dy bresenoldeb a'th gysur yn eu galar.

Gweddïwn dros y rhai sydd wedi cael eu hanafu, neu wedi colli cartrefi a'u bywoliaeth, yn byw bob dydd mewn dychryn ac ofn. Rho obaith newydd iddynt, agor y llwybrau iddynt er mwyn iddynt fedru derbyn pob cymorth brys a chefnogaeth ymarferol. Rho dy nerth i'r arweinwyr, er mwyn iddynt fedru gweithredu'n deg a doeth yn y gwaith o ailadeiladu Gaza.

Yn olaf, Arglwydd, gweddïwn dros gyfiawnder a heddwch i'r holl fyd. Gweddïwn am atebolrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol am erchyllterau a dioddefaint dy bobl ym mhob man. Gweddïwn am ddiwrnod lle gall y rhai a fu unwaith yn elynion edrych ar ei gilydd fel cymdogion a ffrindiau.

O Dad, dal ninnau i gyfrif, cadw ni'n ystyriol a gweddigar dros bawb sy'n dioddef yn ein cymdogaeth ac ar draws y byd. Dyro inni ddewrder i siarad a gweithredu dros wirionedd a chyfiawnder. Gofynnwn hyn yn enw Iesu, ffynhonnell pob cariad, gras, maddeuant a gobaith. Amen.

# Cyhoeddi Rhestr Wylio Open Doors ac erlid Cristnogion






Yr wythnos diwethaf cyhoeddodd yr elusen Open Doors eu Rhestr Gwylio'r Byd gogyfer â 2025, a chafwyd digwyddiad yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd dan nawdd y Gynghrair Efengylaidd i nodi'r achlysur. Y ffaith frawychus yw nad yw nifer ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist sy'n cael eu herlid am eu ffydd erioed wedi bod mor uchel. Mae dros 380 miliwn o Gristnogion ledled y byd yn wynebu erledigaeth ddwys.

Dyna 1 o bob 7 Cristion.

Dyna 15 miliwn yn fwy na'r llynedd, a chynnydd o 140 miliwn ers 2018.

Clywyd gan Jim Stewart, Rheolwr Ymgysylltu Eglwysi Cymru Open Doors, am y gwahanol ffactorau sy'n annog erledigaeth. Yn gyntaf, anhrefn – sy'n cael ei achosi gan wrthdaro, tor cyfraith sefydliadol a gwrthryfel Mwslemaidd. Yng nghanol yr anhrefn hwn gall gelynion Cristnogion ymddwyn heb ofni cael eu ceryddu. Yn ail, mae grym rheoli yn cael ei nodi fel achos erledigaeth. Wrth i egwyddorion ac ymddygiad gorawdurdodol neu unbenaethol gynyddu, mae gwahanol sefydliadau'n cynyddu'r pwysau a'r trais yn erbyn Cristnogion lleiafrifol.

Unwaith eto, Gogledd Corea sydd ar frig y rhestr, a chlywyd hanes ysbrydoledig Timothy Cho. Rhannodd am ei brofiad o gael ei eni a'i fagu yng Ngogledd Corea fel mab i 'fradwr' gwleidyddol cyn iddo lwyddo i ffoi ar ôl cael ei garcharu bedair gwaith a chyn iddo ddod i ffydd yng Nghrist. Bellach mae'n ymgyrchydd dros hawliau dynol.

Y deg gwlad ar frig Rhestr Byd Open Doors yw'r canlynol:

1. Gogledd Corea
2. Somalia
3. Yemen
4. Libia
5. Swdan
6. Eritrea
7. Nigeria
8. Pacistan
9. Iran
10. Affganistan

Diddorol nodi mai Cymro sy'n cael ei gofio am fynd â'r Efengyl i Gorea, sef Robert Jermain Thomas a ferthyrwyd yn 1866. Pwysig hefyd nodi fod cymunedau o Gristnogion sy'n byw yng Nghymru o nifer o'r gwledydd hyn sydd ar restr y deg uchaf, a'u bod yn rhan o fywyd ysbrydol yr eglwysi yn y wlad hon.

Anogodd Jim Stewart ni i weddïo dros ein brodyr a'n chwiorydd sy'n byw dan erledigaeth. Yn benodol, gofynnodd i ni weddïo dros y rheiny sy'n byw yn Affrica Is-Sahara. Dyma'r lle mwyaf treisgar yn y byd i Gristnogion. Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol dybryd yr ardal wedi arwain at wrthdaro sifil ac wedi rhoi cyfle i Fwslemiaeth filwriaethus ffynnu.

Rhannau o Nigeria yw'r llefydd peryclaf i fod yn Gristion yn y byd. Yno gwelir cymunedau Cristnogol yn cael eu targedu'n ddidrugaredd gan grwpiau milwriaethus megis Boko Haram a milisia'r Fulani. Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol hefyd wedi arwain at drais yn erbyn Cristnogion yng Ngweriniaeth Affrica Ganolog (27), Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (35), Mali (14), Burkina Faso (20) a Niger (28). Mae'r ansefydlogrwydd a'r trais yn arwain at argyfwng pellach wrth i filiynau o Gristnogion gael eu gorfodi i adael eu cartrefi.

'Does dim rhaid i chi alaru fel mae pawb arall yn galaru – does ganddyn nhw ddim gobaith' (1 Thesaloniaid 4:13).

Nod Open Doors yw cefnogi ein brodyr a'n chwiorydd yn y sefyllfaoedd hyn, gan eu cynorthwyo'n ymarferol fel y gallan nhw ddal eu gafael ar y gobaith sydd ganddynt yn Iesu, a rhannu'r gobaith hynny ag eraill, hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf tywyll.

Beth am i ni, eglwysi Cymru, ymroi eleni i weddïo dros ein brodyr a'n chwiorydd sy'n wynebu erledigaeth? Mae gan Open Doors sawl adnodd i'n cynorthwyo ac mae modd cysylltu â Jim Stewart ar jims@opendoorsuk.org.

*Cynan Llwyd*
*Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn*

# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025



Cymuned fynachaidd Bose yng ngogledd yr Eidal (Wikipedia)

## A wyt ti'n credu hyn?

**Cyflwyniad i'r deunydd addoli**

Eleni, paratowyd y dathliad gan gymuned Bose, mynachlog eciwmenaidd o frodyr a chwiorydd yng ngogledd yr Eidal. Yn Bose mae bywyd y gymuned yn seiliedig ar rythm gweddïo rheolaidd. Wrth i'r clychau alw'r chwiorydd, y brodyr a'r gwesteion i weddïo, maent oll yn ymgynnull yn yr eglwys.

Wrth i ni ddathlu 1,700 o flynyddoedd ers Cyngor Nicea, mae'r gredo honno'n ganolog i'r deunydd addoli. Yng ngoleuni hynny, mae'r darlleniadau o'r ysgrythur ar gyfer eleni'n canolbwyntio ar gredu.

Nodwedd arbennig arall o'r addoliad eleni yw cynnwys ysgrifenwyr Cristnogol cynnar, yn fwyaf nodedig yn ystod yr ymbiliau. I chwiorydd a brodyr Bose, mae'r awduron hyn yn ffynonellau byw ar gyfer eu bywyd ynghyd heddiw.

Yma, rhoddir blas ar y gwasanaeth yn yr ymbiliau a baratowyd. Hefyd, fe gynhwysir rhan o'r deunydd defosiwn ar gyfer yr wythnos gyfan sy'n cynnwys pwyntiau ymarferol 'ewch a gwnewch' ar gyfer pob dydd. Gellir cael hyd i'r adnoddau Cymraeg yn gyflawn drwy ddilyn y ddolen hon i wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon: Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025 - CTBI

### Ymbiliau

Arweinydd — Yn ein hymbiliau byddwn yn uno'n gweddïau heddiw â ffydd yr Eglwys yn y canrifoedd pell.

Darllenydd 1 — Oherwydd o ddim y gwnaed popeth, a byddai eu bodolaeth yn suddo'n ddim eto, pe na bai Awdur pob peth yn ei chynnal trwy lywodraeth ei law.
(Grigor Fawr [c. 540–604])

Cynulleidfa — **Arglwydd bywyd, o'th law a thrwy dy ragluniaeth yr ydym yn derbyn yr holl greadigaeth. Dysga ni i fyw yn dy fyd yn ofalgar gan geisio cyfiawnder ar gyfer popeth a greaist.**

Darllenydd 2 — Hyn a alwaf yn ffydd: y goleuni eglur sydd trwy ras yn gwawrio yn yr enaid, sy'n cynnal y galon, ac sy'n cynnig rhodd gobaith.
(Isaac o Ninefe [Seithfed ganrif])

Cynulleidfa — **Dduw cariadus, caniatâ inni rodd gobaith yn hael mewn byd y mae ymraniadau a thrais yn ei flino. Nertha'r rhai ymhlith dy bobl y mae difaterwch ac ofn yn eu llethu.**

Darllenydd 1 — Pa ryfedd wedyn, os, wrth nesáu at Dduw, ein bod yn gyntaf oll yn proffesu ein bod yn credu, gan weld nad oes modd heb hynny fyw hyd yn oed fywyd cyffredin.
(Ruffin o Acwileia [c. 344-411])

Cynulleidfa — **Dduw trugarog, maddau inni am yr adegau rydym wedi methu â byw bywyd cyffredin fel Cristnogion. Tyn ni yn ddyfnach at ffydd unol ynot ti, er mwyn i ni allu tystiolaethu i'r byd.**

Darllenydd 2 — Mae gwirionedd yn gweld Duw, a doethineb yn myfyrio ar Dduw, ac o'r ddeubeth hyn daw trydydd, sef ymhyfrydu sanctaidd a rhyfeddol yn Nuw, hanfod cariad.
(Iwlian o Norwich [c.1343– hyd ar ôl 1416])

Cynulleidfa — **Ddiddanydd nefol, gweddïwn y gallwn ymddiried yn fwy yn rhoddion dy wirionedd, dy ddoethineb a'th gariad nag yng nghlyfrwch ein meddyliau ninnau.**

Darllenydd 1 — Ymddangosodd goleuni Crist a gwnaeth i dywyllwch y carchar ddiflannu, gan gysegru ein genedigaeth a dinistrio marwolaeth, a chan ein rhyddhau o'r llyffetheiriau a fu'n ein caethiwo.
(Irenaeus o Lyon [c. 135–198])

Cynulleidfa — **Arglwydd trugarog, arwain ni i weithio gyda'n gilydd fel y gallwn ddod â'th oleuni a'th ryddid lle bynnag y bo tywyllwch a gorthrwm, dioddefaint ac anghyfiawnder.**

Arweinydd — Fel brodyr a chwiorydd Iesu, gweddïwn gyda'n gilydd yn y geiriau a ddysgodd yntau i ni:

Cynulleidfa — **Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...**

### Ymgnawdoliad y Mab (Diwrnod 3)

### Darlleniadau o'r Beibl

Jeremeia 33:14–16; Salm 72:12–14;
Ioan 1:1–14

### Sylwadau

"Yn y dechreuad", dangosodd y Duw sy'n byw mewn perthynas â'r Mab a'r Ysbryd gariad ei galon at fodau dynol ar ei lun a'i ddelw, â'i anadl yn wefr eu bywyd. Gymaint oedd ei ymrwymiad iddynt na allai hyd yn oed bradwriaeth pechod pobl ei wahanu oddi wrth ei gariad di-ildio tuag at y rhai a greodd. Hebddo,

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025*

*(parhad o dudalen 4)*

rydym yn colli cyswllt â'r hyn sy'n ein galluogi i fyw bywyd fel y gorau y gallwn fod. Rydym yn colli ein gwir hunaniaeth. Mae'r ffaith i Dduw roi ei Fab dwyfol i uno â ni yn ein dynoliaeth yn dod yn sylfaen diben ein bod.

Ys dywedodd Athanasiws o Alecsandria: “Daeth yn fod dynol, fel y gallem ninnau sy'n marw fel bodau dynol fyw eto, ac na châi marwolaeth deyrnasu arnom mwyach.”

Rhaid i'r weithred frawychus o chwyldroadol hon, os byddwn yn ei derbyn, lywio pob agwedd ar ein bywydau wrth i ni ymdrechu i fyw yn unol â meddylfryd Iesu, fel y'i hamlygir drwy'r efengylau. Daeth yr un a'i gwnaeth ei hun yn ddim yn was mewn ufudd-dod i gariad ac mae'n ein galw ni, ei bobl, i'w garu yntau ac eraill yn ddeifiol ac mewn pob mathau o ffyrdd creadigol.

“Daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.” (Ioan 1:14)

### Myfyrdod

Ai efydd swnllyd ydw i?
Ai symbal aflafar?
Ydw i'n ddadleugar,
yn boen i berthynas? Yn cyhuddo?
Barnu?
Ydw i'n ddoeth, yn ei dweud hi fel y mae,
yn gwybod popeth?
Ydw i'n rhannu pob cyfoeth?
Ydw i'n ymprydio hyd yr eithaf, bron?
Ydw i'n gwneud popeth
ond yn methu
â charu?
Cofia hyn, anwylyd,
ble bynnag y gosodi di dy hun,
yn uwch neu'n is,
cei dy ganfod, dy garu, byddi'n llawenydd,
yn ddiogel y tu hwnt i'th ddychymyg.
Yn dy wendid bydd dy rym.
Bydd was i fod y gorau gelli fod. Ym myd y Fi Fawr,
drwy gariad arallfydol y Ceidwad, cariad Duw mewn cnawd,
bydd yn awen er newid, wedi dy goncro gan gariad,
cariad chwyldroadol.
“Cariad yw'r gweithredu mwyaf chwyldroadol oll,
yr unig beth erioed a newidiodd unrhyw un.”
*Ann Voskamp*

### Gweddi

Air Duw,
sydd i'n dysgu sut i garu.
bydded i ni ganiatáu i ti rannu yn ein bywydau ym mhob ffordd.
Arglwydd Dduw, ein Tad,
tyn ein llygaid atat ti
fel y gallwn fel dy bobl
gerdded ynghyd o dywyllwch i gofleidio goleuni dy wyneb
a ddatguddiwyd i ni yn Iesu,
dy annwyl Fab, ein brawd a'n Gwaredwr,
sy'n byw ar y cyd â thi, ar dy ddeheulaw,
yn awr a hyd dragwyddoldeb.
AMEN.

### Cwestiynau

- Wrth i ni ddysgu am Iesu drwy ddarllen yr Efengylau, pa gamau ydym yn eu cymryd i dyfu i fod ‘y gorau y gallwn fod'?
- Sut ydyn ni'n profi cariad a bywyd Iesu yn ein cymunedau?
- Sut ydyn ni i weddïo gyda Iesu dros anghenion y byd heddiw?

### Ewch a Gwnewch

(www.ctbi.org.uk/goanddo)

**Personol:** Myfyriwch ar gyffredinedd dynol bywyd Iesu – teithio, bwyta, siarad, gorffwys. Ble yn eich arferion beunyddiol cyffredin ydych chi'n cwrdd â Iesu?
**Lleol:** Mae Iesu'n ein galw ni i'w gyfarfod trwy ein cariad a'n gofal dros eraill (Mathew 25:40). Pwy yn eich cymuned sydd angen gofal a sut allwch chi eu helpu?
**Byd-eang:** Dewiswch dri lle o gwmpas y byd i weddïo amdanynt yn rheolaidd. Dysgwch am y lleoedd hynny i lywio'ch gweddïau a'ch gweithredoedd.




S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 26 Ionawr, am 7:30yh**

**Cofio'r Holocost**

Bydd Lisa Gwilym yn Llundain i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, 80 o flynyddoedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Ymhlith y gwesteion bydd yr hanesydd Cai Parry Jones a'r unawdydd llinynnol Rhian Porter.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 26 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'n Parchedig Megan Williams

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 26 Ionawr, am 12:00yp**

Gwasanaeth dan ofal Sian Rees, Cymdeithas y Beibl

# Hawlio heddwch ddoe a heddiw – Cofio'r Parch. Gwilym Davies (1879–1955)



**2–3.30yp, Sul, 26 Ionawr 2025**
**Capel y Bedyddwyr, Ton-y-felin**
**36 Heol Ton-y-Felin**
**Caerffili CF83 1PA**

**Siaradwyr:**
**Siân Rhiannon, Aled Eirug**
**Siân Lewis (Urdd Gobaith Cymru)**
**Gethin Rhys (Cytûn)**
**Darperir cyfieithu ar y pryd**
**Croeso i bawb – mynediad am ddim**

Ganwyd y Parch. Gwilym Davies ym Medlinog. Roedd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, yn ysgrifennydd i Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yng Nghymru, sylfaenydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru, ac yn drefnydd Apêl Heddwch Eglwysi Cymru i eglwysi'r Unol Daleithiau yn 1925.

Mae hwn yn rhan o gyfres o achlysuron a drefnir i gofnodi canmlwyddiant apêl heddwch 1925, dan nawdd Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru), Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Academi Heddwch a phartneriaid eraill. Cefnogir y cyfarfod hwn gan Gymdeithasau Hanes Gelligaer a Merthyr Tudful, ac eglwysi lleol.

## Apêl Heddwch yr Eglwysi 1925 a'i chefndir

Ym 1924 cyflwynwyd deiseb goffa ryfeddol a lofnodwyd gan bron i 400,000 o fenywod yng Nghymru at fenywod yr Unol Daleithiau America, i annog Llywodraeth yr Unol Daleithiau i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Mae canmlwyddiant yr ymgyrch hon wedi'i ddathlu trwy ddychwelyd y ddeiseb o'r Unol Daleithiau i Gymru, a digido'r llofnodion – gan alluogi disgynyddion heddiw i ddatgelu 'hanes cudd' o weithredu dros heddwch gan y genhedlaeth hon o hen neiniau a mamau-cu. Mae rhagor o wybodaeth am hanes yr apêl yn: www.DeisebHeddwch.Cymru

Roedd Deiseb Heddwch y Merched yn gamp ryfeddol, ond ni chyflawnodd ei phrif nod ar unwaith. Yn ôl yng Nghymru, bu Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru (WLNU) yn ystyried beth i'w wneud nesaf. Penderfynwyd gwahodd arweinwyr cymunedau ffydd Cymru – yr eglwysi Cristnogol i bob pwrpas – i arwyddo apêl goffa debyg, **Deiseb Heddwch yr Eglwysi**, i Gyngor Ffederal Eglwysi Crist yn America. Mae llawer o'r dogfennau wedi'u digido a gellir eu gweld, ynghyd â ffilm nodwedd esboniadol fer, yn: https://www.wcia.org.uk/1925-churches-peace_appeal/

Cyfleodd y Parchg Gwilym Davies, Ysgrifennydd yr WLNU, yr apêl yn bersonol i'r Cyngor Ffederal yn eu cyngres flynyddol yn Detroit yn Nhachwedd–Rhagfyr 1925. Heddiw, mae cymunedau ffydd Cymru (trwy Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru) yn gweithio, gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Academi Heddwch Cymru, Cymdeithas y Cymod ac eraill i goffáu canmlwyddiant yn 2025, trwy wneud y canlynol:

- treiddio'n ddyfnach i'r hanes
- coffau'r Apêl mewn lleoliadau yng Nghymru sydd â chysylltiadau arbennig â'r llofnodwyr – gan gynnwys Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Cwm Rhymni (cartref Gwilym Davies) ac eraill
- gweithio gyda chenedlaethau heddiw i weld beth fyddai Apeliadau Heddwch gan gymunedau ffydd yn eu dweud yn 2025 – ac i bwy y dylid cyfleu'r rhain
- ysbrydoli cenhedlaeth newydd i archwilio sut y gall gwahanol grefyddau gydweithio a chyfrannu at y gwaith o chwilio am heddwch byd-eang heddiw.

**Rydym am i hon fod yn bartneriaeth rhwng haneswyr, arweinwyr ffydd a charedigion heddwch yng Nghymru, yr Unol Daleithiau a'r tu hwnt.**

**A allech chi helpu gydag unrhyw ran o'r gwaith hwn? Os felly, cysylltwch â:**

- Gethin Rhys [ar gyfer cyswllt rhwng cymunedau ffydd] gethin@cytun.cymru
- Craig Owen [ar gyfer yr agweddau hanesyddol a heddwch]: craigowen@wcia.org.uk

***Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!***

Ar wefan Cytûn gallwch wylio fideo byr am ailddarganfod yr Apêl a'i harwyddocâd, a gweminar a drefnwyd gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn treiddio'n ddyfnach i'r hanes (y ddau yn Saesneg). Ceir hefyd esboniad llawnach o'r cynllun canmlwyddiant, a sut i gyfrannu ato yn ymarferol ac yn ariannol (yn y ddogfen PDF o dan y fideos.)
https://www.cytun.co.uk/hawlio-heddwch-canmlwyddiant-apel-heddwch-yr-eglwysi-1925/



Llun: Gethin Rhys a Craig Owen yn dal Apêl 1925 yn Llyfrgell Teml Heddwch ac Iechyd Cymru

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 3: Oferedd Bywyd**

**Llyfr y Pregethwr 1:3–11**

Mae Llyfr y Pregethwr yn llyfr diddorol gan ei fod yn taflu dŵr oer i raddau ar y pwyslais a geir yng ngweddill yr Hen Destament fod ystyr i bopeth. Mae pennod gyntaf Genesis yn gweld pwrpas a gwerth mewn bywyd wrth adrodd am y Crëwr yn ymhyfrydu yn ei greadigaeth. Gosododd Adda ac Efa yng ngardd Eden gan orchymyn iddynt lenwi'r ddaear a'u darostwng gan ofalu amdani (Genesis 2:15). Mae'r thema fod ystyr i fywyd ac i genedl Israel yn un amlwg gan fod Duw wedi eu galw i bwrpas. Ac er y profiadau anodd a ddaw i'w rhan, yn y pen draw mae bywyd yn ystyrlon.

Ond yn Llyfr y Pregethwr ceir pwyslais gwahanol. Er iddo fwynhau bywyd, dywed fod yr hyn sy'n digwydd ar y ddaear yn ddirgelwch llwyr iddo. Mae ceisio treiddio i'r dirgelwch, meddai, fel 'ymlid gwynt' (e.e. Pregethwr 1:17; 2:11; 4:4). Gwastraff amser yw chwilio am ystyr.

Yn yr adnodau hyn mae'n ceisio profi gwirionedd ei osodiad fod bywyd yn ddiystyr. Mae'n dechrau gyda chwestiwn rhethregol sy'n ymwneud â'r ddynoliaeth (1:3), ac yna'n symud ymlaen at y bydysawd (1:4–7) cyn rhoi sylw pellach i'r ddynoliaeth (1:8–9). Yn nwy adnod olaf yr adran (1:10–11), ceisia achub y blaen ar y sawl a fyddai'n anghytuno â'i safbwynt.

**Cwestiwn**

Mae'n gofyn y cwestiwn rhethregol, "Pa elw sydd i neb yn ei holl lafur, wrth iddo ymlafnio dan yr haul?" (Pregethwr 1:3). Mae'r ymadrodd 'dan yr haul' yn ymddangos lawer gwaith yn y llyfr, a'i ystyr yw 'ar y ddaear'. Trwy ofyn y cwestiwn, mae'n rhagdybio mai "dim" fyddai'r ateb. Beth yw pwrpas gweithio'n galed trwy gydol ein hoes os nad oes unrhyw fwynhad? Mae'n gwestiwn digon teg.

Â yn ei flaen i roi enghreifftiau o'r gwagedd (Pregethwr 1:4–11). Yr enghraifft gyntaf yw'r cenedlaethau. Er bod y byd yn sefydlog, cyn gynted ag y mae un genhedlaeth yn mynd, daw un arall yn ei lle. Aiff bywyd yn ei flaen yn ddigyfnewid, fel tiwn gron. Yna rhydd dair enghraifft o fyd natur. Cyfeiria at yr haul, y gwynt a'r nentydd, gan nodi diflastod cylchdro'u bodolaeth. Mae hyn mor wahanol i'r hyn a welwn yn y Salmau, lle mae'r awduron yn gweld rhyfeddod y cread a'n bod yn gallu gweld gogoniant y Crëwr ynddo. Wrth edrych ar y nefoedd, mae awdur Salm 8 yn ystyried y lloer a'r sêr fel gwaith Duw (Salm 8:3). Mae Salm 19 yn adleisio hyn: 'Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo' (19:1). Gweler hefyd Salm 136: 5–9 a Salm 104:1–4, sy'n mynegi'r un safbwynt. Yma mae agwedd gadarnhaol tuag at y cread lle y gwelir haelioni a chariad Duw.

**Undonedd**

Ond mae'r Pregethwr yn edrych ar yr un byd, ac yn ei weld mewn goleuni gwahanol. Nid tyst i'r cariad dwyfol sy'n para am byth yw taith ddyddiol yr haul. Nid campwr llon 'yn barod i redeg cwrs' mohono, ond un sy'n 'brysio yn ôl i'r lle y cododd' (Pregethwr 1:5). Wrth weld yr haul yn croesi'r ffurfafen, y darlun a ddaw i feddwl yr awdur yw taith lafurus hen ŵr blinedig sy'n rhuthro adref i noswylio wedi lludded y dydd, cyn gorfod dechrau eto. Darlun negyddol sydd ganddo hefyd o'r gwynt a'r nentydd.

Ni wêl y Pregethwr ddim ond undonedd diystyr yn nhrefn y bydysawd. Daw i'r un casgliad am fywyd bob dydd: 'Yr hyn a fu a fydd' (Pregethwr 1:8). Mae hanes yn mynd mewn cylch, yn gwbl ddigyfeiriad, ac felly 'nid oes dim newydd dan yr haul' (1:9).

**Neges ddadleuol**

Mae ei agwedd tuag at fywyd yn mynd yn groes i ddealltwriaeth y proffwydi. Er enghraifft, pwyslais Eseia i'w gyfoedion mewn caethiwed ym Mabilon yw fod cyfnod newydd ar ddechrau yn eu hanes. Roedd yn hawdd iawn i'r caethgludion gasglu bod Duw wedi cefnu arnynt. Na, meddai'r proffwyd. Ei neges ef i'r bobl yw fod Duw wedi maddau iddynt a'i fod wrthi'n ddiwyd yn paratoi'r ffordd iddynt ddychwelyd i Jwda. Gweler Eseia 42:9; hefyd 43:18–19.

Felly, o gymharu ei agwedd negyddol at y greadigaeth a'r byd â safbwynt awduron Beiblaidd eraill, mae'n amlwg mai torri cwys unig a wna'r Pregethwr wrth ddatgan nad oes 'dim newydd dan yr haul' a bod pob rhan o fywyd yn ofer.

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Yn eich barn chi, pa agweddau ar fywyd yn y byd modern sy'n annealladwy neu ofer?
2. Ym mha ffyrdd y mae eich ffydd yn eich cymell i anghytuno â'r Pregethwr a gweld cynnydd neu ddatblygiad yng nghwrs y byd?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru)

# Diwrnod gweithredu dros iechyd Gaza

Dydd Sadwrn, 4 Ionawr, daeth grwpiau ledled Cymru ynghyd i sefyll mewn undod â gweithwyr iechyd a meddygol Gaza. Gwelwyd grwpiau'n ymgynnull ger nifer o ysbytai, yn cynnwys:

- Ysbyty Bronglais, Aberystwyth
- Ysbyty Maelor, Wrecsam
- Ysbyty Gwynedd, Bangor
- Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin
- Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd
- Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd
- Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan
- Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Tonysguboriau
- Ysbyty Singleton, Abertawe
- Ysbyty'r Faenor, Cwmbrân, ac mewn gwahanol leoliadau yng Nghaerdydd.

Dros y pymtheg mis diwethaf mae gweithwyr meddygol Gaza wedi dioddef ymosodiadau di-baid gan fyddin Israel, sydd wedi dinistrio llawer o gyfleusterau iechyd Gaza a lladd dros fil o weithwyr iechyd.

Ddiwedd 2024, targedwyd Ysbyty Kamal Adwan yng ngogledd Gaza. Adroddwyd bod 50 o bobl wedi cael eu lladd yn yr ysbyty neu'n agos ati gan filwyr Israel. Yn dilyn wythnosau o fomio di-baid, goresgynnodd lluoedd Israel yr ysbyty, gan gymryd 240 o bobl yn wystlon, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd a chleifion.

Mae'r Euro Medical Human Rights Monitor wedi cofnodi adroddiadau dirdynnol o droseddau difrifol a gyflawnwyd gan luoedd Israel yn ystod yr ymosodiad ar yr ysbyty. Mae'r rhain yn cynnwys llofruddiaethau bwriadol, dienyddio, yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol a chorfforol ar fenywod a merched.

Un o'r rhai a gipiwyd oedd Cyfarwyddwr Meddygol yr ysbyty, Dr Hussam Abu Safia. Ym mis Hydref 2024, cafodd mab Dr Abu Safia ei ladd gan daflegryn Israelaidd ac anafwyd Dr Abu Safia hefyd gan shrapnel o ymosodiad drôn a drawodd yr ysbyty.

Dywedodd llygad-dystion fod Dr Abu Safia wedi cael ei drosglwyddo i wersyll caethiwo erchyll Sde Teiman lle cafodd meddyg Palesteinaidd arall, Dr Adnan Al Bursh, ei arteithio i farwolaeth. Mae mudiadau hawliau dynol wedi disgrifio amodau annynol y gwersyll, gyda charcharorion yn dioddef tymheredd rhewllyd, cosbi systematig, arteithio a chaethiwo mewn cewyll tebyg i'r rhai ar gyfer anifeiliaid.

Yn ôl Amnest Rhyngwladol: "Ers dechrau'r hil-laddiad yn erbyn Palestiniaid yn Gaza, mae Israel wedi cipio cannoedd o weithwyr gofal iechyd Palesteinaidd heb gyhuddiad na phrawf. Cafodd gweithwyr iechyd eu harteithio a'u cam-drin mewn ffyrdd eraill a'u caethiwo heb iddynt allu cyfathrebu â neb."

Galwodd yr ymgyrchwyr ar aelodau seneddol Cymru yn San Steffan ac aelodau'r Senedd yng Nghaerdydd i ddangos eu cefnogaeth a mynnu bod Dr Abu Safia, ei gyd-weithwyr a'i gleifion yn cael eu rhyddhau ar unwaith ac yn ddiamod.

Dywedodd llefarydd ar ran y grŵp fu'n gyfrifol am drefnu'r diwrnod o weithredu:

"Galwn ar Ysgrifennydd Tramor Gwladwriaeth Prydain, David Lammy, i fynnu bod Israel yn rhyddhau Dr Hussam Abu Safia a'r holl weithwyr iechyd eraill sydd mewn caethiwed ar unwaith. Ar ddechrau 2025 mae'n bwysicach nag erioed fod ein llais dros heddwch a chyfiawnder i bobl Palesteina yn cael ei glywed yn eglur."

Rhaid i Israel roi'r gorau i ladd pobl ddiniwed a dinistrio'r seilwaith sifilaidd yn fwriadol, yn enwedig yn y sector iechyd ym Mhalesteina, Libanus ac erbyn hyn, yn Syria. Mae'n hen bryd i'n gwleidyddion, yn enwedig ar lefel San Steffan, roi'r gorau i adrodd y neges dreuliedig fod 'gan Israel yr hawl i'w hamddiffyn ei hun', a chydnabod yn gwbl eglur bod Israel yn cyflawni hil-laddiad er mwyn creu 'Israel Fwy'. Mae'n gwbl amlwg fod llywodraeth Netanyahu yn torri cyfraith ryngwladol, gan ladd degau o filoedd o sifiliaid diniwed yn y broses.

* * *

Cefnogwyd y diwrnod o weithredu gan CND Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith, Heddwch ar Waith/Peace Action Wales, Ymgyrch Cefnogi Palesteina/PSC Cymru, Stop The War Cymru

Anna Jane Evans, Caernarfon – 07901 545114

David McKnight – Cyd-gadeirydd PSC Gogledd-ddwyrain Cymru – 07569 337692



Ysbyty Bronglais, Aberystwyth



Ysbyty Maelor, Wrecsam

# Pytiau Newyddion o Swyddfa'r Bedyddwyr

**Apêl Talentau Gobaith dros Gymorth Cristnogol yn codi bron i £25,000 erbyn y Nadolig!**

Rydym yn falch iawn o fedru rhannu bod ein hapêl dros Gymorth Cristnogol a chymunedau yn Simbabwe, Talentau Gobaith, wedi cyrraedd o fewn trwch blewyn i £25,000 erbyn y Nadolig! Rydym yn hynod ddiolchgar am bob cyfraniad a dderbyniwyd ar gyfer Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru a Chymorth Cristnogol yn y cyswllt yma. Gallwn eich sicrhau bydd pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth.

Os digwydd bod cyfraniadau nad ydynt eisoes wedi eu hanfon i'r swyddfa i'w trosglwyddo i Gymorth Crisntogol, gofynnwn yn garedig i hyn gael ei wneud cyn gynted ag y bo modd, ac erbyn diwedd Ionawr fan bellaf. Gellir naill ai anfon siec atom i'r Llwyfan, yn daladwy i 'Undeb Bedyddwyr Cymru' gan nodi Apêl Cymorth Cristnogol UBC ar gefn y siec neu drwy'r wefan Apêl Talentau Gobaith – JustGiving.

Dyma rannu eto neges o ddiolch arbennig i ni a baratowyd gan ein partneriaid yno yn yr hydref. Mae croeso i chi rannu'r ddolen hon ag aelodau eich eglwysi: https://www.youtube.com/watch?v=YJb6hDbDRvU

**Grantiau Adeilad trwy law Cronfa Adeiladu'r Bedyddwyr**
Yn chwilio am arian ar gyfer prosiect adeiladu bychan yn eich eglwys? Mae gennym grantiau o £5k–£25k ar gael. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ebrill 2025; ewch i'n gwefan am ragor o fanylion: https://www.baptistbuilding.org/our-grants

Yn meddwl am brosiect mwy? Rydym hefyd yn cynnig benthyciadau di-log o £30k–£500k i'ch helpu i brynu, ehangu, atgyweirio a gwella adeiladau eglwysig: https://www.baptistbuilding.org/our-loans
CIO Adeilad y Bedyddwyr: wrthi'n ariannu seiliau cadarn ers 1824!

**Cynhadledd Gweinidogion Cymru Gyfan, Abertawe – 10 ac 11 Chwefror**
Mae cynhadledd nesaf gweinidogion Bedyddwyr Cymru ar y gorwel! Cynhelir cynhadledd 2025 yn Eglwys Waterfront. Abertawe, unwaith eto. Byddwn yn croesawu Dr Rachel Jordan-Wolf, cyfarwyddwr HOPE Together, mudiad cenhadol sydd yn arfogi eglwysi i rannu am Iesu â'u cymunedau. Mae ffurflen archebu a rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

**Dyddiadau'r cynadleddau blynyddol i'w nodi:**
7 Mehefin: Momentum, Halliwell Caerfyrddin (i'r teulu cyfan; di-Gymraeg)
19 a 20 Mehefin: Cyfarfod Blynyddol Cymraeg yr Undeb, Llundain




## Rhaglenni Cymanfaoedd Canu 2024–2025

Cofiwch fod cyflenwad o Raglenni Cymanfaoedd Canu 2024–5 ar gael, gyda dau fersiwn fel arfer, sef Hen Nodiant a Sol-ffa.

Pris £3 yr un

Ar gael gan:

Helen Gibbon 01267290518
Ebost: helengibbon1@btinternet.com

Alan Wynne Jones 01970828163
Ebost: Alan.jones212@btinternet.com







Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru